Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Gwynfryn a Meinciau
# Ysgol Gynradd Meinciau
# Pontiets
# Llanelli
# SA15 5SN

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/01/2017**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Gwynfryn a Meinciau. Mae'r lleoliad yn cwrdd mewn ystafell bwrpasol yn Ysgol Gwynfryn ym mhentref Pontiets, Sir Gaerfyrddin.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i dderbyn hyd at 16 o blant fesul sesiwn, a derbynnir plant o ddwy i bedair oed. Mae 14 o blant ar y gofrestr ar hyn o bryd ac ariennir pedair o blant gan yr awdurdod lleol. Cynhelir sesiynau o dair awr am bum bore'r wythnos.

Saesneg yw prif iaith cartref bron pob un o'r plant a daw'r gweddill o aelwydydd lle siaredir y Gymraeg gan o leiaf un rhiant. Ychydig iawn o blant ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n mynychu'r lleoliad.

Mae cryn newid staffio wedi digwydd tros y 12 mis diwethaf. Mae'r arweinydd newydd wedi bod yn ei swydd ers canol Medi 2016 ac yn arwain tair aelod o staff cymwysedig.

Agorwyd y lleoliad ar ei safle presennol a than enw Cylch Meithrin Gwynfryn a Meinciau tua diwedd 2011. Cyn hyn roedd y lleoliad yn gweithredu o dan enw Cylch Meithrin Meinciau a gafodd ei arolygu gan Estyn ym mis Mai 2011. Cafodd Cylch Meithrin Gwynfryn a Meinciau ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym mis Mai 2015. Dyma arolygiad cyntaf y lleoliad gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn ddigonol oherwydd:

- bod y plant yn hapus iawn ac yn teimlo'n ddiogel
- y berthynas dda iawn sy'n bodoli rhwng oedolion a phlant
- mewn ychydig wythnosau, mae'r plant wedi dechrau dysgu pwysigrwydd bod yn ystyriol o'i gilydd a dangos cwrteisi
- bod llawer o'r plant yn gwrando'n briodol ar storïau ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn gymwys
- bod rhan fwyaf o'r plant yn trin ystod o offer bach a chyfarpar ysgrifennu yn hyderus
- bod medrau rhif llawer o'r plant yn datblygu'n dda ar gyfer eu hoed a'u gallu
- bod llawer o'r plant yn ymddwyn yn dda
- bod profiadau dysgu yn eang a chytbwys
- bod ymarferwyr yn canolbwyntio'n dda ar annog plant i fwyta'n iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd

Fodd bynnag:

- nid yw'r rhan fwyaf o'r plant yn hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg
- nid yw'r cynllunio ar gyfer chwarae rhydd y plant yn ddigon manwl er mwyn datblygu medrau lythrennedd neu rhifedd
- nid yw'r gweithdrefnau cynllunio ac asesu wedi cael digon o amser i wreiddio a chael effaith ar safonau
-

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- bod yr arweinydd mewn cyfnod byr iawn wedi sefydlu gweledigaeth glir lle mae pawb yn cydweithio i sicrhau'r gorau posibl i'r plant yn eu gofal
- bod yr arweinydd wedi llwyddo i feithrin ysbryd o gydweithio clos ymysg staff fel bod ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau
- bod gweithdrefnau cynllunio ac asesu manwl yn cychwyn cael effaith gadarnhaol ar safonau plant
- bod gan swyddogion y pwyllgor rheoli wybodaeth ddefnyddiol am yr hyn sy'n digwydd o ddydd i ddydd yn y lleoliad
- bod y pwyllgor rheoli wedi datblygu eu rôl i ddwyn yr arweinydd i gyfrif yn effeithiol am safonau plant a'r ddarpariaeth
- bod yr adroddiad hunanarfarnu wedi adnabod llawer o gryfderau'r lleoliad

- bod y cynllun datblygu'n canolbwyntio'n gywir ar godi safonau medrau'r plant, yn arbennig eu medrau llythrennedd
- bod gan y lleoliad ystod o bartneriaethau effeithiol
- bod y lleoliad yn gwneud defnydd pwrpasol o gymorth allanol

Fodd bynnag:

- nid yw'r newidiadau wedi cael digon o amser i effeithio'n llawn ar ddatblygu'r ddarpariaeth na chodi safonau
- mae'r broses hunanarfarnu gyfredol yn newydd iawn, yn or-ddibynnol ar yr arweinydd ac nid oes prosesau ffurfiol i ymgynghori â rhieni
- yn gyffredinol, mae'r adroddiad yn rhy bositif ac nid yw'n cydnabod yn ddigonol mai megis cychwyn mae llawer o weithdrefnau'r lleoliad
- nid yw'r adroddiad bob amser yn cydnabod yr holl feysydd y mae angen eu gwella, yn arbennig o fewn arweinyddiaeth y lleoliad
- nid yw'r cynllun datblygu yn cynnwys digon o fanylder i fod yn hollol effeithiol
- nid yw trefniadau'r pwyllgor rheoli ar gyfer cadw cyfrifon y lleoliad yn ddigon ffurfiol

## Argymhellion

A1 Codi safonau llythrennedd y plant, yn enwedig eu medrau llafar

A2 Gwreiddio'r gweithdrefnau cynllunio ac asesu newydd fel bod medrau cynnar llythrennedd, rhifedd a technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn cael eu datblygu ar draws y chwe maes dysgu

A3 Sicrhau bod y prosesau hunanarfarnu a gwella ansawdd yn fwy cynhwysol ac effeithiol

A4 Sefydlu trefn fwy ffurfiol o gadw golwg ar gyfrifon y lleoliad

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yn ystod sesiynau, mae llawer o'r plant yn gwneud cynnydd rhesymol wrth ddatblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu, ac yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Mae llawer o'r plant yn gwrando'n briodol ar storïau ac yn cychwyn ymuno'n bwrpasol yn y caneuon dosbarth. Maent yn dilyn cyfarwyddiadau yn gymwys, er enghraifft wrth beintio yn ystod y dasg ffocws neu daro offerynnau y tu allan. Mae llawer o'r plant yn dod o hyd i'w henwau ar begiau heb gymorth pan fyddant yn cyrraedd ac wrth hunangofrestru. Lleiafrif sy'n dewis mynd i nôl llyfr ond gall y rhain ddal a throi tudalen yn gywir, er enghraifft wrth ddarllen i ddoli. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn trin ystod o offer bach a chyfarpar ysgrifennu yn hyderus ac mae rhai ohonynt yn deall bod diben i ysgrifennu, wrth weithio yn y siop. Fodd bynnag, ychydig o'r plant sy'n defnyddio'r Gymraeg yn annibynnol nac yn ddigymell wrth iddynt chwarae. Nid yw llawer yn hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg ac mae eu geirfa ac amrediad eu patrymau brawddeg yn gyfyngedig.

Mae medrau rhif llawer o'r plant yn datblygu'n dda ar gyfer eu hoed a'u gallu. Mae'r rhan fwyaf yn adrodd rhifau i dri. Mae lleiafrif yn dechrau adnabod rhifau i bump a pharu'r rhif ar gyfarpar mathemategol gyda'r rhif ar y sedd y maent yn eistedd arni. Mae llawer yn adnabod siâp dau ddimensiwn yn dda yn y dosbarth a'r tu allan wrth ddilyn cyfarwyddiadau i daro offer gyda siâp lliw arbennig arno.

Mae mwyafrif y plant yn dechrau dod yn hyderus wrth ddefnyddio cyfarpar TGCh. Defnyddiant begiau electronig i dderbyn cyfarwyddiadau yn ystod y gweithgareddau ffocws a rhaglen beintio ar lechen electronig yn fwriadus. Maent yn rheoli symudiadau tegan electronig o siâp i siâp yn gywir ac yn defnyddio bysellfwrdd i symud tudalen ar lyfr electronig.

Mae gan lawer o'r plant fedrau corfforol datblygedig ac maent yn datblygu medrau cydbwyso'n fedrus. Maent yn symud beiciau yn bwrpasol ar hyd llwybr arbennig, gyda'r mwyaf hyderus yn dechrau defnyddio pedalau. Mae llawer yn defnyddio offer bach, fel brwshys paent, gyda rheolaeth dda wrth beintio gan efelychu llun yr artist. Mae medrau llawer o'r plant o ran datrys problemau yn dechrau datblygu'n dda, er enghraifft wrth ddyfalu sut i lywio tegan electronig. Mae llawer o'r plant yn dechrau datblygu'n ddysgwyr annibynnol wrth gymryd rhan weithredol yn eu dysgu. Maent yn datblygu hyn drwy wneud dewisiadau am yr hyn maent yn hoffi yn ystod amser byrbryd ac adeg dewis rydd ac wrth ddiosg dillad a hongian cotiau.

**Lles: Da**

Mae pob plentyn yn mwynhau dod i'r lleoliad ac yn dechrau setlo i drefn sefydledig yn dda. Mae llawer ohonynt yn awyddus i gymryd rhan mewn gweithgareddau ac yn dyfalbarhau am gyfnod rhesymol. Er enghraifftm, wrth iddynt osod offer mathemategol at ei gilydd i gyfateb rhif neu chwarae rôl yn y gegin fwd.

Mae llawer o'r plant yn ymddwyn yn dda, yn enwedig yn ystod gweithgareddau ffocws. Mewn ychydig wythnosau, maent wedi dechrau dysgu pwysigrwydd bod yn ystyriol o'i gilydd a dangos cwrteisi. Mae llawer o'r plant yn dechrau gwneud dewisiadau synhwyrol ynglŷn â'r hyn yr hoffent ei wneud yn ystod chwarae rhydd. Maent yn dysgu cymryd eu tro, rhannu ac arfer hunanreolaeth yn dda. Mae llawer yn dechrau helpu i dacluso pan ofynnir iddynt ac maent yn defnyddio offer yn ofalus.

Yn ystod amser byrbryd, mae rhan fwyaf o'r plant yn arddangos medrau cymdeithasol da. Maent yn dechrau dysgu dweud 'diolch' ac maent yn ymwybodol bod angen hylendid da trwy olchi eu dwylo cyn amser byrbryd.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ymarferwyr yn datblygu cynlluniau sydd yn darparu ystod o brofiadau diddorol ar draws yr holl feysydd dysgu gan fodloni egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn llawn. Mae'r cynlluniau yn nodi amcanion dysgu ar gyfer gweithgareddau ffocws yn glir ynghyd â gweithgareddau addas sy'n bodloni anghenion llawer o'r plant. Yn ddiweddar, mae ymarferwyr wedi cyflwyno ychydig o gyfleoedd i'r plant gynnig eu syniadau i'r cynlluniau, er enghraifft wrth gynnig syniadau ar gyfer datblygu ardaloedd darpariaeth barhaus. Mae'r cynllunio ar gyfer gweithgareddau ffocws a gweithgareddau yn yr ardaloedd dysgu yn datblygu'n briodol. Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau cynllunio wedi'u hymsefydlu'n ddigon effeithiol i sicrhau bod medrau'r plant yn datblygu'n systematig ar draws bob maes dysgu.

Yn gyffredinol, mae'r gweithgareddau dyddiol yn dechrau darparu cyfleoedd addas i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh plant. Er enghraifft, mae cyfleoedd i gyfrif blociau o wahanol liwiau yn yr ardal adeiladu yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar fedrau rhif y plant. Fodd bynnag, nid oes digon o ffocws ar ddatblygu medrau llafar plant. Mae hyn yn cyfyngu ar allu plant i gyfathrebu yn y Gymraeg.

Caiff y plant gyfleoedd cyson i ddatblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru. Enghreifftiau effeithiol o hyn yw efelychu gwaith o artistiaid Cymreig a thrwy ddathliadau fel Dydd Gŵyl Ddewi a Santes Dwynwen.

Yn ddiweddar iawn, mae'r lleoliad yn dechrau gwneud defnydd buddiol o'r gymuned i gyfoethogi profiadau'r plant. Er enghraifft, mae ymweliad â'r golchdy yn datblygu ymwybyddiaeth o'r byd o'u cwmpas a'r ardal leol yn addas. Gwneir defnydd priodol o ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant, er enghraifft ymweliadau gan y nyrs i gyfoethogi'r thema 'pobl sy'n ein helpu'.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth gadarn am egwyddorion y Cyfnod Sylfaen. Maent yn gwneud defnydd addas o ystod o ddulliau addysgu ac adnoddau priodol i lywio'r dysgu. Ar y cyfan, maent yn cynllunio gweithgareddau sy'n sicrhau cydbwysedd addas rhwng gweithgareddau o dan arweiniad yr oedolion a gweithgareddau y mae'r plant yn eu dewis eu hunain. Fodd bynnag, nid yw trefn y sesiynau bob tro yn galluogi plant i wneud dewisiadau eu hunain yn ddigon effeithiol.

Mae hyn fwyaf amlwg yn ystod y gweithgareddau ffocws lle mae disgwyl i bob plentyn wneud y gweithgaredd ar yr un pryd. Yn gyffredinol, mae'r gweithgareddau yn cynnal diddordeb llawer o blant yn dda. Mae hyn yn eu galluogi i ddyfalbarhau â'u tasgau. Fodd bynnag, ar adegau, mae gor-arweiniad gan oedolion yn cyfyngu ar allu'r plant i weithio'n annibynnol.

Un o gryfderau'r cylch yw'r berthynas hyfryd sy'n bodoli rhwng y staff a'r plant. Maent yn rheoli ymddygiad yn sensitif ac yn deall anghenion y plant yn dda. O ganlyniad, mae llawer o'r plant yn ymddwyn yn dda ac yn dechrau dangos parch at eu ffrindiau drwy rannu adnoddau ac wrth gydchwarae'n llwyddiannus.

Mae'r ymarferwyr yn modelu'r iaith Gymraeg yn dda. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ymestyn iaith y plant drwy gyflwyno geirfa a phatrymau brawddeg newydd yn rheolaidd. Yn ystod sesiynau carped ac mewn gweithgareddau, mae ymarferwyr yn dechrau holi plant yn briodol. Er hyn, nid ydynt yn darparu digon o gyfleoedd i blant ymateb i gwestiynau.

Mae gweithdrefnau asesu'r lleoliad yn datblygu'n effeithiol ac mae bob un o'r ymarferwyr yn cyfrannu'n effeithiol at y broses. Mae asesiadau yn ystod gweithgareddau ffocws yn ddefnyddiol ac yn cyfrannu'n werthfawr at gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu. Yn ddiweddar, mae'r lleoliad wedi cyflwyno gweithdrefnau asesu buddiol er mwyn asesu pob plentyn ar fynediad. Yn ogystal, maent yn defnyddio asesiad llythrennedd er mwyn adnabod anghenion plant unigol ac i gynllunio gweithgareddau perthnasol ar eu cyfer. Fodd bynnag, mae'r gweithgareddau hyn yn eu dyddiau cynnar, ac nid yw'n bosibl mesur eu heffaith eto ar safonau plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau'r lleoliad i hyrwyddo byw yn iach yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i ddatblygu dealltwriaeth plant o bwysigrwydd bwyta'n iach, er enghraifft drwy'r fenter 'bywyd bywiog'. Mae'r lleoliad yn sicrhau cyfleoedd addas i blant frwsio'u dannedd yn ddyddiol. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o'r plant ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd edrych ar ôl eu dannedd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer sicrhau lles, datblygiad moesol, ysbrydol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn datblygu'n llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn manteisio ar gyfleoedd buddiol i ddatblygu ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau, er enghraifft wrth astudio gŵyl Diwali. Maent yn darparu cyfleoedd cadarn i blant i ailgylchu papur, cardfwrdd a phlastig. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn briodol.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau cymdeithasol y plant yn dda yn ystod y cyfnod byrbryd. Mae ymarferwyr yn annog y plant i gymryd cyfrifoldeb wrth weithredu fel helpwr y dydd.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Yn ddiweddar, mae'r lleoliad wedi dechrau sefydlu prosesau priodol ar gyfer adnabod plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Er bod y prosesau yn newydd, mae ymarferwyr yn dechrau defnyddio asesiadau yn addas i ddarparu gweithgareddau dilys ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn dechrau gweithio gydag asiantaethau allanol fel y therapydd llefaredd i ddarparu ar gyfer plant yn addas.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae awyrgylch gofalgar a chartrefol yn bodoli o fewn y lleoliad. Mae'r staff yn cydweithio'n dda iawn fel tîm i greu ethos sy'n gynhwysol lle roddir blaenoriaeth uchel i les plant. O ganlyniad, mae plant yn ymgartrefu'n gyflym yn y lleoliad.

Mae'r ymarferwyr yn darparu amgylchfyd deniadol ac ysgogol. Yn gyffredinol, mae'r ardaloedd darpariaeth barhaus yn cynnig cyfleoedd addas i blant ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o arddangosfeydd lliwgar a deniadol er mwyn atgyfnerthu'r dysgu a dathlu gwaith y plant yn llwyddiannus.

Mae gan y lleoliad fynediad dyddiol i ardal allanol yr ysgol. Mae'r ardal allanol yn symbylus gydag amrywiaeth o adnoddau i sbarduno'r dysgu. Mae ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau addas i gyfoethogi profiadau'r plant yn yr ardal hon, er enghraifft drwy gyflwyno geirfa newydd wrth ddefnyddio'r wal sŵn. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid oes gan y gweithgareddau ddigon o ffocws bob tro ar ddatblygu ystod ddigon eang o fedrau.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mewn cyfnod byr iawn, mae'r arweinydd newydd wedi sefydlu gweledigaeth glir lle mae pawb yn cydweithio i sicrhau profiadau gwerthfawr i'r plant yn eu gofal. Mae wedi llwyddo i feithrin ysbryd o gydweithio clos ymysg staff sydd hefyd yn gymharol newydd i'r lleoliad. Mae swydd ddisgrifiadau yn gynhwysfawr ac mae'r arweinydd yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau. Mae'r arweinydd wedi cychwyn cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd er mwyn cydweithio'n fwriadus i ddarparu safon briodol o ofal ac addysg. Mae trefniadau rheoli perfformiad pwrpasol newydd yn gosod targedau perthnasol er mwyn datblygu staff ymhellach a chefnogi disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r newidiadau diweddar wedi cael digon o amser i sefydlu cyfeiriad stategol ddigon cadarn eto er mwyn effeithio'n llawn ar y ddarpariaeth a'r safonau.

Mae gweithdrefnau priodol wedi eu cynllunio'n ddiweddar er mwyn codi safonau dysgu ac addysgu. Mae'r arweinydd hefyd wedi dechrau ffurfioli gweithdrefnau asesu ac olrhain cynnydd disgyblion. Fodd bynnag, dim ond yn ddiweddar mae'r ymarferwyr yn cymryd rhan weithredol wrth gynllunio ac asesu cyrhaeddiad y plant. Nid yw'r ystod o weithgareddau wedi cael digon o amser i wreiddio a chael effaith arwyddocaol hyd yma.

Mae aelodau'r pwyllgor wedi neilltuo llawer o'u hegni a'u sylw'r flwyddyn ddiwethaf i sicrhau arweinyddiaeth a staff sefydlog. Maent wedi cydweithio'n llwyddiannus yn ddiweddar gyda'r pwyllgor ehangach a phennaeth yr ysgol gynradd er mwyn sicrhau bod ganddynt staff â gweledigaeth glir ar gyfer y lleoliad. Yn sgîl y ffocws cadarn ar sicrhau arweinyddiaeth a staffio sefydlog, mae gan y pwyllgor rheoli gyfeiriad strategol clir ac maent yn cymryd eu cyfrfoldebau o ddifri. Maent wedi datblygu eu rôl i ddwyn yr arweinydd i gyfrif am safonau, darpariaeth, diogelu plant ac arweinyddiaeth yn effeithiol. O ganlyniad, mae prosesau diogelu'r lleoliad yn gadarn ac mae ganddo bwyslais clir ar adnabod anghenion ieithyddol y plant ac arweinyddiaeth sy'n ymateb i her. Mae gan swyddogion y pwyllgor wybodaeth dda am yr hyn sy'n digwydd o ddydd i ddydd yn y lleoliad.

Mae'r lleoliad yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn briodol, gan gynnwys datblygu'r ardal y tu allan ac annog bwyta ac yfed yn iach.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Yn dilyn ei phenodiad diweddar, mae'r arweinydd wedi dechrau dod i adnabod y lleoliad yn dda. Mae'r broses hunanarfarnu bresennol yn gymharol newydd ac nid yw'r gweithdrefnau newydd wedi cael amser i wreiddio na chynnwys gweddill y staff yn llawn yn y broses. Er bod y lleoliad yn gwrando ar farn ymarferwyr a'r rhieni yn anffurfiol, nid oes unrhyw brosesau ffurfiol i ymgynghori â hwy.

Mae'r arweinydd wedi cydweithio'n ddiwyd gydag aelodau o'r pwyllgor rheoli, ynghyd â swyddogion yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin, i gael gwybodaeth briodol am y lleoliad. Mae wedi adeiladu ar y wybodaeth hon a llunio adroddiad sydd yn ddarlun gweddol gywir o waith presennol y lleoliad. Mae'r adroddiad yn adnabod llawer o'r cryfderau a rhai o'r materion sydd angen eu gwella. Yn gyffredinol, fodd bynnag, mae'r adroddiad yn rhy bositif ac nid yw'n cydnabod yn ddigonol mai megis cychwyn mae llawer o weithdrefnau'r lleoliad.

Ar y cyfan, mae cyswllt priodol rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a'r cynllun datblygu. Mae gan y cynllun ffocws clir ar godi safonau medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys digon o fanylder i fod yn hollol effeithiol. Nid yw'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli wedi cael digon o amser i ddangos effaith eu gwaith ar wella'r safonau, y ddarpariaeth nac arferion arweinyddiaeth.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn adeiladu'n bwrpasol ar ystod o bartneriaethau buddiol iawn. Mae'r partneriaethau hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles plant ac ar ansawdd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth.

Mae partneriaethau gyda rhieni yn datblygu'n gadarn. Mae rhieni newydd yn derbyn pecyn gwybodaeth sy'n hwyluso'r cam o'r cartref i'r lleoliad drwy ddarparu gwybodaeth angenrheidiol. Gwneir defnydd buddiol o hysbysfwrdd i rannu gwybodaeth o ddydd i ddydd ac mae rhieni'n derbyn cylchlythyron gwybodaeth yn gyson. Mae'r rhieni yn gefnogol iawn i'r lleoliad ac yn codi arian yn flynyddol er mwyn gwella'r ddarpariaeth. Enghraifft o hyn oedd y daith gerdded noddedig

ddiweddar i Benyfan a gododd swm sylweddol o arian. Mae'r arian a godir yn cael ei ddefnyddio'n briodol i wella cyfleusterau, er enghraifft offer chwarae rôl a doliau amlddiwylliannol.

Mae gan y lleoliad bartneriaethau cefnogol iawn gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Mae'r partneriaethau hyn yn cydweithio'n agos â'r pwyllgor rheoli a phennaeth yr ysgol i geisio gwella a datblygu arweinyddiaeth a staffio yn y lleoliad. Bellach, mae arweinydd newydd a staff cymharol newydd wedi'u penodi sy'n derbyn cefnogaeth er mwyn gosod sylfeini cadarn ar gyfer y dyfodol. Mae arwyddion calonogol iawn bod hyn eisoes yn cael effaith gadarnhaol.

Mae'r bartneriaeth sy'n bodoli gyda'r ysgol leol lle mae'r lleoliad yn rhannu adeilad yn gryfder amlwg. Mae hyn yn galluogi'r lleoliad i gael defnydd o ystod eang o adnoddau ac yn cyfoethogi dealltwriaeth broffesiynol yr ymarferwyr. Mae'r plant yn elw'n fawr o'r bartneriaeth, ac o ganlyniad i'r ymweliadau cyson â'r ysgol, maent yn gyfarwydd iawn â gweithdrefnau'r ysgol cyn cychwyn yno.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Yn ddiweddar, mae'r arweinwyr wedi sicrhau bod gan y lleoliad staff parhaol sydd â chymwysterau addas i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen. Maent wedi canolbwyntio'n llwyddiannus ar gael y staff newydd i weithio'n effeithiol fel tîm.

Mae'r lleoliad yn roi sylfeini cadarn yn eu lle i wneud y defnydd gorau o'r ymarferwyr a'r adnoddau i gefnogi addysgu a dysgu. Mae digon o adnoddau o ansawdd da o fewn y lleoliad er mwyn bodloni gofynion y chwe maes dysgu. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r adnoddau i gyfoethogi profiadau'r plant a'u sbarduno. Mae'r rhain yn cynnwys llyfrau diddorol o ansawdd da ac adnoddau helaeth i'w helpu i ddysgu yn yr awyr agored. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd priodol o'r adnoddau yn yr ardaloedd dysgu a chwarae y tu mewn a'r tu allan.

Mae'r cynllun datblygu yn adnabod yr angen i staff dderbyn hyfforddiant pwrpasol. Mae'r arweinydd eisoes wedi elwa o hyfforddiant ar ddefnyddio offer i gyfoethogi addysgu rhifedd ac yn gwneud defnydd cyson ohonynt. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun datblygu wedi adnabod cost y cyrsiau na pha aelodau o staff fydd yn eu mynychu yn ddigon manwl. Mae'r arweinydd yn sicrhau bod gweithdrefnau rheoli perfformiad yn barod i'w rhoi yn eu lle.

Mae'r arweinydd yn cadw cofnodion manwl o dderbyniadau o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, tros amser, nid oes gan yr arweinwyr brosesau digon effeithiol ar gyfer cadw gwariant o dan adolygiad na'i archwilio'n allanol.

Yng ngoleuni'r deilliannau a gyflawnir gan y plant a'r gweithdrefnau diweddar y mae'r arweinydd newydd wedi eu sefydlu, mae'r lleoliad yn darparu gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Maldwyn Ellis Pryse | Arolygydd Cofnodol |
| Jonathan Cooper | Arolygydd Tîm |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |